# GÊM BWYD A DIOD

Cyfarwyddiadau i blant



## Y Gêm

Dewiswch un cownter.
Rholiwch y dis a symudwch y cownter.
Edrychwch ar y llun.
Yn gyntaf gofynnwch: Wyt ti'n hoffi ...?
✓ neu ✗ ô dan y llun.
Arhoswch am eich partner i ateb.
Os mae'n gywir, tocyn yn eich basgedi.
Taflwch y dis eto.
Yr ail dro, gofynnwch: Ydy (enw) yn hoffi ...?

**HER**

Ymarfer "casáu" a "dwlu ar".

Cownter





# Cyn y gêm

Bore da, blant. Sut ydych chi? Ydych chi'n barod i ddysgu?
Rydyn ni'n chwarae gêm heddiw!
Edrychwch arna i.
Pwy sy'n hoffi bwyta? Dwylo i fyny.
Bobol bach! Mae llawer o blant yn hoffi bwyta! Cyfrwch gyda fi. 1,2,3...
Mae ........ plant yn hoffi bwyta!
Jac, wyt ti'n hoffi bwyta? Ydw neu nac ydw?
Gwych!
Pwy sy'n hoffi losin?
Ailadroddwch ar fy ôl i.
"Rydw i'n hoffi losin".
Da iawn, blant!

Rydw i'n hoffi losin achos mae'n felys!
Gwrandewch yn ofalus, bawb.
"Dydw i ddim yn hoffi caws".
Gyda'n gilydd.
"Dydw i ddim yn hoffi caws".
Bendigedig!
Dydw i ddim yn hoffi caws achos mae'n ofnadwy!

Nawr te, mae'n amser chwarae'r gêm!
Gweithiwch mewn parau.
Grŵp un. Dewch gyda fi ac eisteddwch wrth y bwrdd.

# Y Gêm

Dere, Jac!
Gwranda ac eistedda!
Gweithia gyda dy bartner a chwaraea'r gêm.
Rhaid i chi fod yn garedig.
Rydw i eisiau i chi taflu'r dis.
Symudwch y cownter ..... o weithiau.
"Beth yw'r bwyd/diod?
Jac, gofynna i bartner "Wyt ti'n hoffi....."
Mali, ateba "Ydw/nac ydw. Rydw i'n hoffi/dydw i ddim yn hoffi ... achos mae'n ..."
Cofia'r treiglad. Edrycha ar y mat iaith.
Cywir - tocyn yn dy fasged.
Rholiwch y dis eto a symudwch ymlaen, blant.
Mali, gofynna Jac "Wyt ti'n hoffi....."

Da iawn ti!
Rhaid i ti ateb, Jac. "Ydw/nac ydw. Rydw i'n hoffi/dydw i ddim yn hoffi... achos mae'n ...". Perffaith! Rydw i eisiau i chi ateb yn gyflym.
Taflwch y dis eto, blant.
Mali, gofynna Jac: "Ydy Macsen yn hoffi ....?"
Jac, ateba: "Ydy/nac ydy. Mae e'n hoffi/ dydy e ddim yn hoffi .... achos mae'n ....".
Rydych chi'n ardderchog!
Rhaid cymryd tro ac rydw i eisiau i chi dweud "dwlu ar" a "casáu" hefyd.
Edrychwch ar y mat iaith am help.
Peidiwch â chweryla. Bant â chi.

# MAT IAITH

Wyt ti'n hoffi ___?

Ydw. Rydw i'n hoffi _____ achos mae'n _____

Nac ydw. Dydw i ddim yn hoffi _____ achos mae'n _____

Ydw. Rydw i'n dwlu ar _____ achos mae'n _____

Nac ydw. Rydw i'n casáu _____ achos mae'n _____

Ydy(enw) yn hoffi___?

Ydy. Mae e'n/hi'n hoffi _____ achos mae'n _____

Nac ydy. Dydy e/hi ddim yn hoffi _____ achos mae'n _____

Ydy. Mae e'n/hi'n dwlu ar _____ achos mae'n _____

Nac ydy. Dydy e'n/hi'n casáu _____ achos mae'n _____

| | | | |
|---|---|---|---|
| sbeislyd | ych a fi! | melys* | gwych* |
| hyfryd | iachus | da i chi* | di-flas* |
| drwg i chi* | poeth* | ofnadwy | blasus* |

*Cofiwch: achos mae'n = treiglad meddal

p > b  t > d  c > g  b > f  d > dd  g > -  m > f  ll > l  rh > r

| | |
|---|---|
| llaeth | grawnwin |
| losin | tatws |
| brechdanau | sudd oren |
| banana | caws |
| tost a jam | dŵr |
| pysgod | mefus |
| moron | bisgedi |
| llysiau | pasta |
| teisen | taten bôb |